

Yn gyffraethlon mae pob lleoliad gofal plant yn y blynyddoedd cynnar gorfod gweithio i'r safonau statudol sef y National Minimum Standards (2016) sy'n sicrhau bod hawliau plant yn cael eu cyrraedd ar sail y UNCNC (2019) sy'n sicrhau yn ol Flying Start (2014) bod pob plentyn yn derbyn dechreuad deg fel sylfaen o addysg a datblygiad sy'n rhoi cynhwysiant yn safonau'r gofal sy'n cael eu darparu i bob plentyn. Er hyn mae Williams (2003) yn nodi eu fod yn ymarfer da i ceisio rhoi gofal o safonau'n uwch na'r ddisgwyliadau statudol ac i hybu annibynniaeth ac mae'r asseiniad hyn mynd i cymharu dau dull o wella safonau gofal er mwyn lles a wella sefydlogrwydd emosiynol.

Sustained Shared Thinking for Emotional Well-being (2015) yw dull o fesur safonau ar draws y lleoliad ym mhob elfen o ofal sy'n cael eu darparu i blant trwy arsylwadau'n cael eu gwneud er mwyn casglu data sy'n rhoi sgôr i'r lleoliad yn ôl Purdon (2014). Disgrifiwyd Siraj-Blatchford (2009) cyd-feddwl yn barhaus efo'r plant (SST) fel ffordd bedagogaid o gyfathrebu efo plant er mwyn helpu nhw i ddatrys problemau yn annibynnol yn y dyfodol agos wrth ddysgu'r sgiliau oddi wrth eraill gan gynnwys rhywun sy'n fwy gwybodus fel cytunwyd damcaniaeth Vygotsky yn ôl Bodrova a Leong (2007) a Siraj-Blatchford (2009). Wrth i leoliadau bod yn rhan o'r dull sgorio hyn bydd plant yn fwy tebygol o gael y safon gorau o ofal ac felly yn dysgu'n well o'r person mwy gwybodus sy'n treulio amser efo'r unigolyn trwy hybu annibynniaeth a sgiliau bywyd wrth efelychu ymarfer da fel cytunwyd damcaniaeth Piaget gwelwyd yn Halfpenny a Pettersen (2014) yw'r ffordd fwyaf llwyddiannus i blant i ddysgu.

Yn ôl Podmore a Luff (2012) gan fod arsylwadau sy'n sgorio'r lleoliad yn cael eu gwneud dros gyfnod byr o amser (tua 2 awr a hanner) nid yw'r canlyniadau sy'n cael eu casglu yn wir adlewyrchiad o'r safon sy'n cael eu darparu yn ddyddiol i'r plant o fewn pob gweithgaredd, gan fod aseswyr ond gallu creu sylwadau a sgorio yn ôl beth maent yn weld yn ystod yr arsylwadau ac ateb cwestiynau er mwyn rhannu rhagor o wybodaeth o sut mae'r lleoliad yn sicrhau ansawdd uchel o ofal yn pob agwedd er gall y wybodaeth hon fod yn gai gan nid oes angen rhannu tystiolaeth i gefnogi'r hyn rydych yn rhannu efo'r aseswyr yn ôl Palaologou (2012). Er hyn mae Saracho (2015) yn anghytuno ac yn credu bod cofnodi arsylwadau er mwyn mesur safon yn ffordd llwyddiannus o asesu sut mae lleoliad yn darparu safonau uchel o ofal gan fod y bobl sy'n dod allan i arsylwi wedi llwyddo i fod yn aseswyr aur ac o

ganlyniad i gyd yn dilyn yr un deilliannau sy'n sicrhau cynhwysiant a gwir adlewyrchiad o'r lefel o ofal sy'n cael eu gweld yn ystod yr arsylwadau a gan fod cofnodion yn cael eu gwneud mae tystiolaeth i gyd-fynd efo'r canlyniadau. Yn ôl Palaiologou (2012) mae'n bwysig bod rhieni a gofalwyr yn teimlo cyfforddus yn gadael y plant yng ngofal lleoliad am gyfnod hir o amser er mwyn eu lles ac felly wrth gael adborth cadarnhaol o asseswyr allanol mae'n gysurol i rieni i adnabod eu bod wedi dewis lleoliad cadarnhaol i'w phlant ac felly wedi gwneud penderfyniad positif tuag at eu datblygiad ac addysg. Cytunwyd Waller, Whitmarsh a Clarke (2011) fod yng nghadarnhaol i gael rhieni trafod amdano leoliad er mwyn cynyddu'r adwybyddiaeth am lwyddiant safonau rhagorol o ofal sy'n cael eu darparu sy'n cynyddu'r mewnbwn o blant sy'n parhau i fynychu'r lleoliad.

Er hyn mae rhan bwysig o gael plant i feddwl dros eu hun yw gofyn cwestiynau penagored iddynt ac wrth wneud hyn rydych yn dysgu'r plant sut i adfyfrio, sicrhau dealltwriaeth glir ac ehangu eu gwybodaeth ym mhellach yn annibynnol ac yn ôl Siraj-Blachford et al (2011) bydd y sgiliau adlewyrchol hyn yn sicrhau parhad yn eu haddysg a dechreuad cadarnhaol tuag at eu haddysg ac felly mae'n rhoi'r plant ar fantais o ddealltwriaeth well cyn dechrau ysgol sy'n rheswm i rieni dewis y lleoliad fel gofal cyn ysgol, gan fod gymaint o amrywiaethau ar gael ar hyn o bryd mae'n bwysig sefyll arall o ran cynnig gwasanaeth efo safonau'n uwch na'r lleoliad cyffredin. Ychwanegwyd Bilton (2010) bod gweithgareddau agored sy'n gwella dealltwriaeth plant o'r byd o amgylch yn wneud iddynt fwy agored i gyfathrebu'n rhydd efo eraill ac felly'n datblygu ar draws y cwricwlwm yn fwy effeithiol o ganlyniad. Mae'r gweithwyr hefyd yn buddio o feddwl ar y cyd gan eu bod yn wneud arsylwadau'n haws wrth gael dealltwriaeth glir o'r lefel mae'r plant wedi deall a gallu datrys y problemau sy'n briodol er mwyn casglu rhagor o wybodaeth a datblygu eu sgiliau ym mhellach, mae'r perthynas rhwng y gweithwyr a'r plant hefyd yn gwella o ganlyniad gan fod y plant yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a gofalu amdano yn ôl Athey (2007). Er hyn mae Thorton a Brunton (2008) yn ddweud bod lleoliad efo effaith arno lwyddiant SSTEW gan fod angen digon o wagle i sicrhau bod addasiadau gallu cael eu gwneud yn fuan er mwyn ysgogi gweithgareddau sy'n cael eu cynllunio ar y cyd er mwyn datblygu addysg ym mhellach.

Yn ôl Siraj-Blatchford et al (2011) mae'n hanfodol bod ymarferwyr yn rhoi amser i alluogi cyfathrebiad aeddfed efo plant er mwyn gallu ymestyn eu dealltwriaeth ym mhellach ac i ehangu eu dealltwriaeth ym mhellach trwy ofyn cwestiynau agored iddynt a thrafod nhw trwyddo bosibilrwydd er mwyn gwneud iddyn nhw i gwestiynu'r hyn rydych yn ddweud ac yn ceisio datrys y broblem ac yna pryd mae'r perfeddion yn cysylltu efo'r hyn maent yn credu ynddo mae'r broses o adeiladu gwybodaeth ganlynol yn gwella i gam nesaf yn ddatblygiad y plentyn gan eu bod wedi cael y gefnogaeth i allu datrys y broblem ac yn ôl Wright (2009) cytunwyd bod amser y ffactor mwyaf cyffredin am gyfangu addysg plant a phobl ifanc. Er hyn mae Siraj-Blatchford et al (2011) yn credu bod ymarferwyr efo cymwysterau uchel efo gwell disgwyliadau ynghyn a safonnau uchel o ofal sy'n cael eu darparu o fewn lleoliad ac felly yn fwy tebygol o gyfyngu STEW i mewn i ofal plant yn naturiol er mwyn parhau a gwella safonnau'r lleoliad. Anghytunwyd Menter (2010) gan ddweud bod safonnau yn cael eu mesur o ran barn bersonol y buddiannau ac felly ni fydd unrhyw ddull o sgorio yn cael clod o fod y ffordd gywir o fesur safonnau uchel yn ofal gan fod gwastad amrywiaeth o farnau tuag at strategaethau newydd, er hyn mae'n buddio'r plant os mae lleoliadau yn dilyn amrywiaeth o fesuriadau gofal er mwyn sicrhau bod pob gweithdrefn yn cael eu gwneud er mwyn lles y plant o fewn gofal y lleoliad ar y safon gorau sy'n bosib. Ychwanegwyd Wright (2009) bod cynllunio o flaen llaw gallu bod yn dasg gymlaeth o ganlyniad i ormodedd o ffactorau i ystyried er mwyn sicrhau bod pob agwedd o addysg yn cael eu cynnwys o fewn diwrnod o weithgareddau i'r plant ac o ganlyniad mae dull o fesur safon yn ffordd effeithiol i leoliadau sicrhau bod pob agwedd o les ac anghenion emosiynol plant yn cael eu hystyried yn ychwanegol i (2016) a disgwyliadau'r Fframwaith y Cyfnod Sylfaen (2014). Wrth fesur safonnau mae cynllunio yn rhan bwysig ac felly mae'n sicrhau bod y gweithgareddau sy'n cael eu darparu i'r plant o fewn y lleoliad gofal yn cael effaith positif ar eu haddysg a datblygiad trwy gefnogi eu syniadau efo amrywiaeth o brofiadau sy'n ysgogi eu dealltwriaeth ym mhellach. Yn ôl Wright (2009) dyma'r un o'r buddiannau gorau o ddilyn dulliau o fesur ansawdd gan eu bod yn rhoi ffocws newydd i ymarferwyr i ddilyn ac o ganlyniad mae'r plant yn buddio o'r syniadau newydd sy'n cadw teuluoedd yn hapus o'r safon y gofal sy'n cael eu darparu o fewn y lleoliad.

Yn ôl y ESDGC (2017) elfen bwysig wrth ystyried addysg cyn ysgol i blant o fewn y blynyddoedd cynnar yw amdano'r byd ac yr amgylchedd mae'r plant yn byw ynddo. Mae Davis a Elliott (2014) yn cytuno bod gofidion yr amgylchedd methu cael eu troi nôl mewn amser ond er mwyn atal i'r amgylchedd gwaethygu'n gynyddol mae'n hanfodol i addysgu'r plant y dyfodol sut i ofalu am yr amgylchedd a'r canlyniadau dros gam-drin y byd. Gan fod llawer o ofidion amgylchedd yn ôl YPTE (2019) mae'r ysgolion eco yn rhaglen effeithiol i fod yn rhan o fel lleoliad er mwyn gwella'r statws amgylcheddol yn y dyfodol fel mae Barnes (2015) yn weld bydd cydweithio efo math hyn o raglen gwneud. Bydd lleoliadau yn cael eu henwebu fel ysgol eco os ydynt yn dangos eu bod yn dysgu'r plant sut i edrych ar ôl yr amgylchedd ac ein byd, mewn ffordd sy'n ysgogi plant i eisiau cymryd rhan er mwyn gwneud gwahaniaeth am ein dyfodol (Eco-Schools,2019). Nid oes angen talu i fod yn rhan o'r rhaglen ac felly gall unrhyw leoliad cymryd rhan, er hyn mae'n hanfodol i fod yn rhan or Foundation For Environmental Education (FEE) i ddechrau'r broses ond mae hyn yn golygu eu bod yn hygyrch i leoliadau addysgiadol yn ychwanegol i ysgolion. Yn ol Featherstone (2002) bydd rhieni yn ddiolchgar bod y plant yn dysgu sgiliau newydd sy'n gwella eu gallu i ddatrys problemau ac sy'n rhoi sylfaen i'w sgiliau bywyd gan nid yw pob rhiant yn hyderus efo sgiliau amgylcheddol megis garddio ac ati, felly ni fydd cyfleoedd tu allan o'r lleoliad i'r plant dysgu'r sgiliau allgyrsiol. Credaf Taylor (2013) bod lleoliadau sy'n ymuno efo rhaglenni er mwyn ehangu addysg a datblygiad y plant yn eu gofal yn gweithio er mwyn lles y plant ac felly'n sicrhau safonau yn uwch na disgwyliadau yn pob agwedd o addysg a datblygiad pob unigolyn sy'n cael eu cadarnhau efo llwyddiant i ennill baner i hysbysebu'r ymdrech ychwanegol sy'n cael eu rhoi mewn i weithgareddau a phrofiadau ychwanegol i ofyniadau'r cyfnod sylfaen yn ol Arseven (2014) .

Wrth fod yn rhan o'r rhaglen bydd gweithwyr yn dysgu am sut i edrych ar ol yr amgylchedd efo gwell dealltwriaeth o'r difrod sy'n cael eu hachosi o ganlyniad i camdrin y byd ac felly bydd y safon o addysg sy'n cael eu rhannu efo'r plant yn gwella a'r gweithgareddau sydd ynghlwm o safon uchel sy'n gwella dealltwriaeth plant o'r byd ac yn ehangu'r hyn mae'r Fframwaith y Cyfnod Sylfaen (2015) yn ddweud sy'n disgwyl addysgu'r plant. Yn ol Bilton (2010) mae'r lefel o ddealldwriaeth a brwdfrydedd yr oedolion sy'n cynnal y gweithgareddau sy'n ymwneud ar

amgylchedd yn cael effaith ar agwedd plant amdano'r pwnc ac felly bydd y plant sy'n cymryd rhan yn efelychu ymateb yr oedolyn, felly wrth gael agwedd bositif bydd y plant yn dysgu i barchu'r amgylchedd ac i fod yn ddiolchgar am y rhyddid i ddefnyddio sy'n hybu dysgu fel cytunwyd Wellhousen (2002) . Yn ol Austin (2007) mae plant o dan straen o gadw'n lan wrth fynychu meithrinfeydd ac felly ddim yn cymryd rhan mewn gweithgarredau tu allan oherwydd y gofid i fod yn fwdlyd ac felly trwy rannu'r cyfleoedd o addysg sydd ar gael trwy gysylltu efo natur ac i wneud eu rhan i ofalu am yr amgylchedd bydd y rhieni a gofalwyr yn ddeall eu bod yn rhan o addysg eu plentyn ac o ganlyniad lleihau'r straen sy'n cael eu rhoi ar eu plentyn, cytunwyd Henley (2010) bydd hyn yn gam positif tuag at leihau plant sy'n ddioddef o iechyd meddygol gwael o oedran ifanc yn ogystal i hybu eu hiechyd personol a chymdeithasol. Wrth i leoliadau ymuno efo'r rhaglen mae ymchwil Williams (2012) wedi dangos bod agwedd plant tuag at ffactorau amgylcheddol yn newid o ganlyniad iddynt ddeall y rheswm dros yr hyn rydyn yn wneud er mwyn ddiogelu natur. Gan fod amrhywiaeth eang o weithgarredau gallwch wneud fel lleoliad er mwyn derbyn tystysgrif o fod yn ysgol eco mae'n gyfle i lawer o blant derbyn cyfrifoldebau personol. Yn ol Boyden a Crivello (2011) wrth gael cyfrifoldebau personol mae'n rhoi focws a phwrrpas tuag at gymryd rhan mewn gweithgaredd ac o ganlyniad yn denu sylw'r unigolion sy'n cymryd rhan ac felly bydd y profiadau yn ysgogi'r hyn rydant wedi cael eu haddysgu o fewn y lleoliad. Yn ol Slater (2007) er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn darparu cyfleoedd o chwarae sy'n gyfoethog i'r plant mae'n bwysig bod yr adnoddau mor naturiol â phosib ac felly wrth sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu defnyddio tu fewn fel cyfarpar er mwyn lleihau gwastraff ac yn ailgylchu adnoddau pob dydd bydd y plant yn dysgu mewn ffordd holistaidd ac yn ol yr arddull Reggio Emilia (sited yn Arseven,2014) mae hyn yn sicrhau nid yw ddatblygiad unrhyw unigolyn yn cael eu cyfangu o ganlyniad i ddiffyg amrhywiaeth. Wrth ddysgu plant yn ifanc sgiliau byw sy'n rhan o'r rhaglen ysgolion eco megis tyfu bwyd yn naturiol er mwyn deall y broses a'r buddiannau am yr amgylchedd yn ychwanegol i'r person sy'n eu bwyta mae'n gosod sylfaen i ddiddordebau ar gyfer y dyfodol bydd yn rhoi sgiliau bywyd am oes i'r plant (Tovey,2013). Cytunwyd Macintyre and McVitty (2004) bod rhaglenni fel hyn yn hybu lleoliadau i wneud amrhywiaeth o weithgarredau corfforol efo'r plant sy'n ymwneud ar amgylchedd ond gan eu bod yn wneud cysylltiadau efo'r hyn mae'r plant yn cael eu haddysgu a'r profiadau maent yn derbyn wrth gymryd rhan mae'n gwella datblygiad 'cognitive' ac

felly yn ol Gray a Martin (2012) mae'n rhaglen sy'n galluogi lleoliad i ddysgu ar draws y cwricwlwm yn naturiol. Er hyn mae Bilton (2010) yn teimlo fel bod pawb yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn ceisio cael eu gwobrwyo fel Ysgol Eco ac nid yw'r amgylchedd tu allan yn hoffter pob plentyn ac felly dylai gweithgareddau cael eu haddasu er mwyn sicrhau cynhwysiant os nad yw plentyn yn mwynhau bod allan yn yr awyr agored yn hytrach na chael eu gadael allan o weithgareddau neu ddim teimlo'n gyfforddus yn wneud (Austin,2007).

Felly mae'n amlwg yn ol amrhywiaeth eang o ymchwil bod ymuno efo rhaglenni sy'n mesur safon o ofal sy'n cael eu rhoi i blant yn ystod cyfnod mewn meithrinfa plant yn cael effaith positif ar llwyddiant yn ddeilliannau dysgu unigolion ac o ganlyniad y safon o wasanaeth mae lleoliad yn darparu. Gan fod gymaint o gystadleuaeth i ddenu plant tuag at feithrinfa o ganlyniad i'r amrywiaeth eang o ddewis sydd gan rieni a gofalwyr mae'n bwysig bod busnesau yn parhau i geisio gwella'r safon o ofal sy'n cael eu rhoi a trwy ymdopi gwahanol fathau o ffurf i fesur llwyddiant safon mae'n dystiolaeth o frwdfrydedd i roi'r dechreuad gorau i'r plant o fewn gofal y lleoliad. Er bod yr Ysgolion Eco yn faner rydych yn ennill ar ol llwyddo mae'n geni diddordeb o fewn pwnc penodol sy'n rhan o'r SSTEW ac felly bydd y sgiliau a'r amrywiaeth o weithgareddau sy'n cael eu cyflwyno i'r lleoliad yn cael argraff bositif ar sut mae ymwelydd yn teimlo am ethos y lleoliad a sut mae aseswyr yn mesur safon y lleoliad o fewn yr amgylchedd naturiol gan fod perfedion a theimladau plant tuag at weithgareddau yn dangos ac felly bydd yr aseswyr yn cael gwir adlewyrchiad o sut mae'r lleoliad yn dal ati efo'r safonnau a disgwyliadau'r ysgolion eco er mwyn ennill y wobwr ar ol cael eu henwebi yn llwyddiannus sy'n dystiolaeth bod y lleoliad efo diddordeb yn yr amrhywiaeth o raglenni mesur safon er mwyn lles y plant. Ni fydd un dull o fesur safon yn llwyddiannus ar eu hun neu ni fydd amrhywiaeth eang o raglenni i gael ac felly mae'n bwysig bod lleoliadau yn dilyn diddordebau'r plant yn eu gofal a defnyddio fel ffordd o ddilyn llais y plentyn a gwella eu lleoliad am blant y dyfodol ar yr un pryd er mwyn sicrhau eu bod gwastad yn cyflawni'n safonnau sy'n uwch na'r NMS.

Rhestr Cyfeirnod

Arseven, A. (2014) 'The Reggio Emilia approach and curriculum development process', *International Journal of Academic Research*, pp.166-171.

Athey, F. (2007) *Extending thought in Young Children*. London: Sage.

Austin, R. (2007) *Letting the Outside in developing teaching and learning beyond the early years classroom*. Stoke on Trent: Trentham Books.

Barnes, J. (2015) *Cross-Curricular Learning 3-14*. (3rd ed) London: Sage.

Bilton, H. (2010) *Outdoor Learning in the Early Years*. London: Routledge.

Bodrova, E. and Leong, D. (2007) *Tools of the mind: The Vygotskian approach to early childhood education*. New Jersey: Pearson.

Crivello, G. and Boyden, J. (2011) 'On Childhood and Risk: An Exploration of Children's Everyday Experiences in Rural Peru'. *Children and Society*. Pg. 380-391.

Davis, J. and Elliott, D. (2014) *Research in Early Childhood Education for Sustainability*. London: Routledge.

Early Years Foundation Stage (EYFS) (2014) 'Parents' Guide to the Early Years Foundation Stage Framework'
https://www.foundationyears.org.uk/files/2014/08/EYFS_Parents_Guide-amended.pdf [Accessed 20th March 2019].

Eco-Schools (2019) 'Join Eco-Schools' Ar gael o: <https://www.ecoschools.global/joinus> [Defnyddwyd: 16 o Mawrth 2019].

Featherstone,S. (2002) *The Little Book of Outdoor Play*. Great Britain:Featherstone Education Ltd.

Gray,T. a Martin,P. (2012) 'The role and place of outdoor education in the Australlian National Curriculum'. Journal of Outdoor and Environmental Education. Pg16-39.

Halfpenny,A,M. a Pettersen,J. (2014) *Introducing Piaget*. London:Routledge.

Henley,J. (2010) 'Why our children need to get outside and engage with nature.' *The Guardian*, 16th August 2010: pp.1. [Ar-lein]. Available at: <https://www.theguardian.com/lifeandstyle/2010/aug/16/childre-nature-outside-play-health> [Accessed: 28th March 2019].

Llywodraeth Cymru (2017) 'Education for Sustainable Development and Global Citizenship (ESDGC)' <https://learning.gov.wales/resources/browse-all/education-for-sustainable-development-and-global-citizenship/?lang=en> [Accessed 21st of March 2019].

MacinTyre,C. a McVitty,K. (2004) *Movement and Learning in the Early Years*. London:Sage.

Menter,I. (2010) *Teachers – formation,training and identity: a literature review*. Newcastle upon Tyne:Creativity, Culture & Education.

National Day Nurseries Association GB (NDNA) (2019) 'Nursery Membership' Ar gael o : https://www.ndna.org.uk/NDNA/Stakeholders/I_own_or_manage_a_nursery.aspx?WebsiteKey=5e278c52-0dec-4482-ad81-d06b25949f8b&hkey=88f4c583-65d6-4333-b7fa-9866365de558 [Defnyddwyd: 16 o Mawrth 2019].

Palaiologou, I. (2012) *Child Observation for the Early Years*. (2nd ed). London: Sage.

Palaiologou, I. (2012) *Ethical Practice in Early Childhood*. London: Sage.

Podmore, V.N. & Luff, P. (2012) *Observation origins and Approaches in Early Childhood*. Glasgow: Open University Press.

Purdon, A. (2014) 'Sustained shared thinking in an early childhood setting: an exploration of practitioners' perspectives.' *International Journal of Primary, Elementary and Early Years Education*, Volume 44, 2016, Issue 3. [Accessed 18th March 2019].

Saracho, N.O. (2015) *Handbook of research Methods in Early Childhood Education*. Maryland: IAP.

Save the Children (2019) 'UN convention on the Rights of the Child (UNCRC)' <https://www.savethechildren.org.uk/what-we-do/childrens-rights/united-nations-convention-of-the-rights-of-the-child> [Accessed 12th March 2019].

Siraj-Blatchford et al (2011) *The Team Around the child*. Stoke on Trent: Trentham books.

Siraj-Blatchford, I. (2009) 'The British Psychological Society', Conceptualising progression in the pedagogy of play and sustained shared thinking in early childhood education: A Vygotskian perspective, Volume 26, No. 277, pp.1-14. [Online]. Available at: <https://webbscohostcom.ezproxy.uwtsd.ac.uk/ehost/pdfviewer/pdfviewer?vid=1&sid=a7147e85-fe72-4ed6-9492-a2f217bfebcd%40sessionmgr104> [Accessed: 15th March 2019].

Siraj-Blatchford, I. et al., (2011) *The Team Around The Child*. Stoke on Trent : Trentham books.

Siraj, I. Kingston, D., & Melhuish, E. (2015). *Assessing quality in early childhood education and care: Sustained Shared Thinking and Emotional Well-being (SSTEWS) Scale for 2-5-Year-olds provision*. London: IOE Press.

Slater, B. (2007) *My Space*. Oxford: Sure Start.

Taylor, A. (2013) *Reconfiguring the Natures of Childhood*. London: Routledge.

Thorton, L. a Brunton, P. (2008) *Bringing the Reggio Approach to your Early Years Practice*. Oxon: Routledge.

Tovey, H. (2013) *Bringing the Froebel Approach to your Early Years Practice*. New York: Routledge.

Waller, T. a Whitmarsh, J. a Clarke, K. (2011) *Making Sense of Theory & Practice in Early Childhood*. England: Open University Press.

Wellhousen, K. (2002) *Outdoor play Every Day*. Canada: Delmar Thompson Learning.

Welsh Government (2014) *Flying Start Annex 'Quality childcare Guidance'*.

Welsh Government (2015) 'Programme for Children and Young People Comprehensive Version Core Aims 1-7'. Welsh Government: Cardiff. Available at: <http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young->

people/rights/implementation-of-childrens-rights/?lang=en [Accessed: 27th March 2019].

Welsh Government (2016) 'National Minimum Standards for Regulated Childcare for children up to the age of 12 years'.(NMS) Cardiff: Welsh Government. https://dera.ioe.ac.uk/14202/7/120309regchildcareen_Redacted.pdf [Accessed: 19th March 2019].

Williams,H. (2012) 'Examining the Effects of Recycling Education on the Knowledge, Attitudes, and Behaviors of Elementary School Students' [Ar-lein]. Available at: https://digitalcommons.iwu.edu/cgi/viewcontent.cgi?article=1008&context=envstu_seminar [Accessed: 29th of March 2019].

Williams,J. (2003) *Promoting Independent Learning in the Primary Classroom*. Great Britain:Biddles Limited.

Wright,T. (2009) *How to be a Brilliant Teacher*. Oxon:Routledge.

Young People's Trust for the Enviroment (YPTE) (2019) 'Climate Change' http://yppte.org.uk/factsheets/climate-change/climate-change?gclid=EAlaIQobChMlic2ezZOv4QIV6J3tCh1ErQuwEAAYASAAEgK9A_D_BwE [Accessed 22nd of March 2019].